COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANRHAEADR Y.C. A GYNHALIWYD YN YSGOL PANT PASTYNOG, PRION AR NOS LUN 27AIN O IONAWR 2014 AM 7.30

PRESENNOL: Y Cynghorwyr Philip Williams (Cadeirydd), Gwennan Hughes, Eirian Parry, Hywel Davies, Barri Evans, Iwan Jones, Cynghorydd Sir Ddinbych Joe Welch a'r Clerc.

1. YMDDIHEURIADAU: Y Cynghorwyr Eirlys Jones, Jill Evans, Falmai Evans a Stan Williams.

2. CADARNHAU COFNODION BLAENOROL Y CYNGOR.
Cadarnhawyd cofnodion 25ain o Dachwedd 2013 2014 a'u harwyddwyd gan y Cadeirydd.

3. MATERION YN CODI O'R COFNODION.
A. Derbyniwyd adroddiad oddi wrth Adran Briffyrdd Cyngor Sir Ddinbych ynglŷn ar ganlynol:-
1. Mi fydd y ffordd o lan Llanrhaeadr tuag at Brion yn cael wyneb newydd yn ystod y flwyddyn ariannol 2014/15.
2. Nid ydy'n bosib graeanu ffordd heibio Maes-y-Groes a Chapel Prion yn y tymor presennol.
B. Mae Swyddog Cydymffurfio Cynllunio Cyngor Sir Ddinbych yn edrych i mewn i'r materion yn Ysgol Pant Pastynog, Prion a Chae'r Mynydd, Saron.
C. Derbyniwyd ataliad £51.68 oddi wrth Brawf Cymru.
D. Adroddwyd y Cynghorydd Sir Joe Welch bod y Cyngor Sir ddim am roi "Pelican Crossing" ym Mhentre' Llanrhaeadr ar hyn o bryd.

4. CYLLID.
A. Datganiad Banc - £13,234.00.
B. Derbyniwyd rhan olaf o'r 2013/14 Precept - £3928.00.
C. Precept 2014/15 - Penderfynwyd yr aelodau i dderbyn £11,784.00 am y flwyddyn 2014/15 sef £24.00 ar yr 491 o dai yn y gymuned.

5. MATERION CYNLLUNIO.
A. Mae'r Cyngor Sir Ddinbych wedi caniatáu cais cynllunio am ffenestri newydd yn yr Hen Ficerdy yn Llanrhaeadr.
B. Derbyniwyd tair cais cynllunio am sylwadau:-
1. Trosiad adeilad allanol i breswyl ym Mhentre' Llech, Llanrhaeadr - dim gwrthwynebiad.
2. Adeilad Amaethyddol yn Nhŷ Cerrig, Prion - dim gwrthwynebiad.
3. Tyrbin Wynt yn Fferm Ieir Pen-y-Ffrith, Saron - penderfynwyd ar y sylwadau canlynol:-
A. Mae'r tyrbin wynt yn rhy agos at dai gyferbyn.
B. Mi fydd yna effaith sŵn.
C. Mi fydd yn tynnu llygad.

6. GOHEBIAETH.
Derbyniwyd nifer o adroddiadau er wybodaeth.

7. UNRHYW FATER ARALL.
A. Penderfynwyd yr aelodau i'r Clerc tynnu sylw Adran Briffyrdd Cyngor Sir Ddinbych at y canlynol:-
1. Ffordd heibio Meifod, Saron eisiau sylw.
2. Canghennau coed eisiau ei thorri rhwng stadau Cae'r Felin a Pont-y-Bedol yn Llanrhaeadr.
3. Arwydd tuag at Lanrhaeadr ar gyffordd Pen-y-groes ym Mhrion wedi disgyn.
4. Problem dwr yn croesi'r ffyrdd wrth Fron Deg a Fotty Lwyd yn Llanrhaeadr.
B. Derbyniwyd Adroddiad gan y Cynghorydd Sir Ddinbych Joe Welch yn cadarnhau bydd allt Saron wrth y Fron ym Mhrion yn cael wyneb newydd yn y flwyddyn ariannol bresennol.
C. Penderfynwyd yr aelodau i'r Clerc tynnu sylw broblem parcio ceir yn Stad Cae'r Felin yn Llanrhaeadr.

8. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR – Nos Lun 24ain o Chwefror 2014 yn Ysgol Bri Cinmeirch, Llanrhaeadr am 7.30 o'r gloch.